Cyflwyno Newid Hinsawdd: Ddoe, Heddiw, ac Yfory

Gweithgaredd 4: Newid hinsawdd – geiriau coll

Oed: 10+

Nod
Atgyfnerthu dealltwriaeth disgyblion o newid hinsawdd a darparu cofnod unigol.

Bydd angen
Copi o daflen waith ‘Newid hinsawdd – geiriau coll’ ar gyfer bob disgybl. (Gweler isod)

Beth i’w wneud
Dosbarthwch y taflenni a gofynnwch i’r disgyblion eu llenwi. Wedi eu llenwi, gall fod yn ddefnyddiol mynd drwy’r atebion i sicrhau bod pawb wedi deall.

Hawlfraint © Oxfam GB. Gellir atgynhyrchu’r ddogfen hon at ddibenion addysgiadol yn unig.

Taflen waith Gweithgaredd 4: Newid hinsawdd – geiriau coll

Mae tanwydd ffosil megis nwy, olew a glo yn cynnwys _____ o blanhigion ac anifeiliaid a fu farw filiynau o flynyddoedd yn ôl. Wrth losgi tanwydd ffosil i gynhesu ein cartrefi neu yrru ein ceir, mae _____ yn cael ei ryddhau.

Mae carbon deuocsid yn _____, sy'n dal gwres yn atmosffer y Ddaear. Mae hyn wedi digwydd erioed ac yn cynorthwyo i gadw'r Ddaear yn ddigon cynnes i gynnal _____. Ond rydym bellach yn defnyddio mwy a mwy o _____ tanwydd ffosil i yrru peiriannau yn y ffatrïoedd sy'n gwneud yr holl bethau newydd yr ydym yn eu prynu, ar gyfer _____ i'r gwaith a'r ysgol ac ar wyliau, ac i ddarparu ynni ar gyfer ein DVDs, _____ a pheiriannau sychu.

Golyga hyn bod y flanced o nwyon tŷ gwydr o amgylch _____ yn dod yn fwy trwchus a'r hinsawdd yn poethi. Bydd hyn yn golygu mwy o sychder, llifogydd a stormydd. Gall ddod yn anoddach _____ digon o fwyd. Gall 20 – 30% o rywogaethau planhigion ac anifeiliaid _____. Gall lefel y môr _____40 centimedr, gan fod y dŵr yn y moroedd yn ehangu wrth gynhesu, a'r capiau iâ yn _____.

Os fydd llywodraethau, busnesau ac unigolion yn cydweithio i ddefnyddio llai o _____, gallwn arafu newid hinsawdd.

Defnyddiwch y geiriau isod i lenwi'r bylchau:

codi nwy tŷ gwydr diflannu ynni dadmer carbon y Ddaear oergelloedd bywyd carbon deuocsid tanwydd ffosil teithio tyfu

Ffynhonnell: Addaswyd o wefan Defra.